1

# Ar grwydr ar dir yr ysgol

## Amcan Dysgu

- Cynnal arolwg o gynefin ac ystyried yr hyn y mae'r cynefinoedd yn eu cynnig i blanhigyn neu anifail.
- Datblygu safleoedd posib ar gyfer cynnal cynefinoedd pellach.
- Gwerthfawrogi sut mae ymyrraeth gan bobl yn effeithio ar gynefin.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

**Gwyddoniaeth** Drwy waith maes, dylent gael y cyfle i astudio'r planhigion a'r anifeiliaid mewn dau amgylchedd lleol cyferbyniol.

- Y ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar yr hyn sy'n tyfu ac yn byw yn y ddau amgylchedd hynny.

- Sut mae pobl yn effeithio ar yr amgylchedd lleol.

**Daearyddiaeth** Nodi a lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau a mapiau.

- Dilyn cyfarwyddiadau, amcangyfrif a chyfrifo gwahaniaethau.

- Nodi cyffelybiaethau a gwahaniaethau er mwyn disgrifio, cymharu a chyferbynnu lleoedd ac amgylcheddau.

Disgrifio achosion a chanlyniadau newid mewn lleoedd ac yn yr amgylchedd.

- Byw yn fy myd i: gofalu am leoedd ac amgylcheddau a phwysigrwydd bod yn ddinesydd byd-eang.

**ADCDF** Yr amgylchedd naturiol.

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

✱ Plant yn gwneud arolwg o’r lle chwarae.

✱ Amlygu'r cynefinoedd gwahanol sydd i’w cael yn y lle chwarae.

✱ Cynllunio sut i ddatblygu mwy o ardaloedd.

## Adnoddau

Llungopïo cynllun graddfa fawr neu braslun o dir yr safle'r ysgol

Clipfyrddau

Papur a phensiliau

Nodiadau athrawon

Cynllun Gweithredu Cynefin

# Pa gynefinoedd y gallwn ddod o hyd iddynt ar dir ein hysgol?

**Amlinelliad o'r Wers**

- Esbonio i'r plant eu bod yn mynd i gynnal arolwg o'r lle chwarae am gynefinoedd presennol a phosib. Sicrhau bod y plant yn deall yr hyn a olygir gan y gair 'cynefin'. Cynefin yw cartref naturiol anifail neu blanhigyn. Dylai'r cynefin ddarparu popeth sy'n angenrheidiol i'r anifail neu'r planhigyn hwnnw oroesi. Bydd yn eu darparu â'r bwyd a'r cysgod sydd angen arnynt yn ogystal â rhywle i fridio.
- Annog hwy i feddwl am leoedd tebygol ar dir yr ysgol a allai eisoes fod yn cynnal bioamrywiaeth - glaswellt hir (ardal o laswellt a adawyd i dyfu'n dal); pwll; waliau/craciau mewn arwynebau caled (gall planhigion a chreaduriaid di-asgwrn cefn fyw yn yr ardaloedd hyn). Mae sawl un o'r rhain yn 'ficro-gynefin', hynny yw, maent yn gynefin bach o fewn cynefin arall.
- Rhoi map o dir yr ysgol i barau o blant. Gofyn cwestiynau i helpu'r plant i gyfeiriadu eu hunain. Cytuno ar allwedd syml i nodi'r ardaloedd hyn ar y map. (Os oes gan eich ysgol ardal fawr, yna efallai y byddwch am gyfyngu'r ardal a gynhwysir yn y cynllun.) Nodi y cynefinoedd ar y map. Cofier -

  Mae coed ag aeron yn darparu bwyd ar gyfer adar (tymhorol).

  Mae gwrychoedd yn darparu cysgod ar gyfer adar a mamaliaid bach.

  Gall craciau mewn waliau fod yn gartrefi i ymlusgiaid/manfilod.

  Byddai glaswellt hir/ardaloedd 'natur' heb eu trin, pentyrrau o bren etc., fod yn gartrefi i drychfilod.
- Sicrhau bod y plant yn edrych yn agos iawn ar ardaloedd glaswelltog - anaml iawn y dewch o hyd i wair heb unrhyw rywogaeth arall yn tyfu yno, felly annog y plant i chwilio'n ofalus i weld a allant ddod o hyd i blanhigion eraill yn tyfu yn y glaswellt. Po fwyaf yw'r rhywogaethau planhigion sydd mewn glaswelltir, y mwyaf amrywiol yr anifeiliaid sy'n cael eu denu yno. Oes unrhyw flodau yn y glaswelltir? Gallai gwenyn a phili palaod fwydo ar y blodau os gallant dyfu heb gael eu torri neu eu cysgodi gan y coed.
- Ar ôl mynd yn ôl i'r ystafell ddosbarth, lliwio'r map gan ddangos y cynefinoedd sydd ar gael.
- Nesaf, nodi meysydd posib i'w gwella - cwblhau'r Cynllun Gweithredu Cynefin i'w wneud yn fwy addas i greaduriaid. Meddwl am yr hyn y gellir ei blannu neu ei adeiladu, â'r bywyd gwyllt y gallai ei ddenu.
- Ystyried pa flodau gwyllt fyddai fwyaf addas ar gyfer gwahanol ardaloedd o dir yr ysgol.

  Mae Erwain, Iris Felen, a Charpiog y Gors yn addas ar gyfer tir llaith (dylid eu hau yn yr Hydref neu'r Gwanwyn).

  Cribau'r Pannwr, Moron Gwyllt a Briallen Mair sydd fwyaf addas ar gyfer mannau glaswelltog (dylid eu hau yn yr Hydref neu'r Gwanwyn).

  Mae Briallu, Clychau'r Gog a Bysedd y Cŵn yn tyfu orau mewn cysgod brith (dylid eu hau yn yr Hydref neu'r Gwanwyn).
- Defnyddio'r cynllun gweithredu i flaenoriaethu ardaloedd i'w datblygu gyntaf/hawsaf, â phwy i gysylltu a phryd i ddechrau. Cysylltu â www.thegrowingschoolsgarden.org.uk
- Ymwelwch a’n gwefan i gael fwy o wybodaeth ar arddio dros fywyd gwyllt www.npt.gov.uk/biodiversity

(Am fwy o gyngor/gwybodaeth cysylltwch â www.plantforwildlife.ccw.gov.uk)